Adroddiad i'r:	**Cabinet**
Dyddiad y Cyfarfod:	**16 Rhagfyr 2014**
Aelod / Swyddog Arweiniol: dros Addysg	**Y Cynghorydd Eryl Williams, Aelod Arweiniol**
Awdur yr Adroddiad:	**Pennaeth Cwsmeriaid a Chefnogaeth Addysg**
Teitl: Llanelwy	**Ymgynghoriad – Ysgol Esgob Morgan,**

---

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1 Mae'r adroddiad yma'n hysbysu aelodau'r Cabinet am ddarganfyddiadau ymgynghoriad ffurfiol a gynhaliwyd rhwng 8 Medi ac 21 Hydref 2014 i mewn i'r cynigion canlynol (y **Cynigion**).

> Mi fydd Cyngor Sir Ddinbych (**CSDd**) yn cau Ysgol Esgob Morgan ar 31 Awst 2015; ac
>
> Mi fydd Esgobaeth Llanelwy (yr **Esgobaeth**) yn agor Ysgol Ffydd Anglicanaidd Wirfoddol a Reolir, i'w hadnabod fel Ysgol Wirfoddol a Reolir yr Esgob Morgan i wasanaethu cymunedau Llanelwy a'r ardaloedd cyfagos ar 1 Medi 2015 ar safle presennol Ysgol Esgob Morgan.

1.2 Mae Llywodraethwyr Ysgol Esgob Morgan (**YEM**) a'r Esgobaeth eisiau newid yr ysgol o fod yn ysgol gynradd gymunedol i fod yn Ysgol Fydd Anglicanaidd Wirfoddol a Reolir ar ei safle presennol. Mae modd cyflawni hyn dim ond drwy gau'r ysgol bresennol gan CSDd ac agor yr ysgol ffydd newydd gan yr Esgobaeth.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Gofynnir i'r Cabinet i benderfynu cymeradwyo cyhoeddi hysbysiad statudol i gyflawni'r cynigion neu beidio.

3. Beth yw'r Argymhellion?

Argymhellir bod Cabinet yn cymeradwyo cyhoeddi hysbysiad statudol i gyflawni'r cynigion.

4. Cefndir y Cynigion

4.1 Ysgol gynradd gymunedol Cyfrwng Saesneg ydy YEM heb ddynodiad crefyddol, sydd wedi'i fynychu gan blant o oed 7 i 11. Mae'r ysgol wedi'i leoli ar Ffordd Siarl, Llanelwy, i'r gogledd-orllewin o ganol y ddinas.

4.2 Aeth Corff Llywodraethol YEM at yr Esgobaeth yn 2011 i drafod newid i fod yn ysgol eglwysig. Yn ogystal â'r trafodaethau gyda'r Esgobaeth, gofynnodd y Corff Llywodraethu beth oedd barn disgyblion, rhieni a staff. Yn Rhagfyr 2011 aeth yr ysgol at CSDd i symud y mater ymlaen.

4.3 Mae angen cynigion penodol ynglŷn â threfniadaeth ysgol i newid ysgol gymunedol i fod yn ysgol eglwysig wirfoddol a reolir. Mae Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 yn dweud na all ysgol newid ei ddynodiad neu gategori; rhaid iddi gau ac agor ysgol eglwysig wirfoddol a reolir newydd yn ei lle.

4.4 Ar 29 Gorffennaf 2014, penderfynodd Cabinet i gymeradwyo cynnal ymgynghoriad ffurfiol ynglŷn â'r Cynigion.

5. Manylion am yr Adroddiad. Ymgynghoriad Ffurfiol

5.1 Cynhaliwyd yr ymgynghoriad ffurfiol i'r Cynigion gan CSDd a'r Esgobaeth. Dechreuodd yr ymgynghoriad ar 8 Medi a daeth i'w ddiwedd ar 21 Hydref 2014. Yn ystod cyfnod yr ymgynghori, mynychodd swyddogion o GSDd cyfarfodydd ymgynghori yn yr ysgol ar 11 Medi gyda Chyngor yr Ysgol, athrawon a staff cefnogi, y Corff Llywodraethu a rhieni.

5.2 Paratowyd dogfen ymgynghori oedd yn cynnwys ffurflen ymateb ac fe'i cylchlythyrwyd i fudd-ddeiliaid. Roedd y ffurflen ymateb yn cynnwys cwestiynau a lluniwyd i ganiatáu pobl i ddarparu eu safbwyntiau ar y Cynigion. Cynhyrchwyd fersiwn o'r ddogfen ymgynghori ar gyfer plant a oedd hefyd yn cynnwys fersiwn i blant o'r ffurflen ymateb. Cyhoeddwyd y ddogfen ymgynghori ar wefannau CSDd a'r Esgobaeth.

5.3 Derbyniwyd cyfanswm o 46 ymateb, yn cynnwys: 33 prif ffurflen ymateb, 8 ffurflen ymateb plant, 3 e-bost a 2 lythyr. O'r ymatebion yn eu cyfanrwydd: Roedd 23 o bobl (50%) yn erbyn y Cynigion, 20 (43%) o blaid a 3 (7%) nad oeddynt o blaid neu yn erbyn neu na wnaeth ymateb/dynodi eu ffafriaeth. O'r rhai oedd yn erbyn y Cynigion, dywedodd 12 eu bod wedi'u cysylltu ag YEM ac 11 nad oeddynt.

5.4 Mae'r sylwadau a wnaethpwyd yn yr ymatebion wedi'u coladu ac mae'r prif themâu a ymddangosodd yn erbyn y Cynigion fel a ganlyn:

- Mae Crefydd/Addysg Ffydd yn beth ddrwg: achosi problemau, gorfodi/cyflyru meddyliau ifanc, mae'n wahaniaethol;
- Dylai ysgolion ffydd gyhoeddus cael eu diddymu/dylai addysg fod yn seciwlar/ni ddylai fod yna glymau gyda'r Eglwys/yn erbyn ysgolion ffydd;
- Ni fyddant yn danfon eu plentyn i Ysgol Esgob Morgan pe bai'r Cynigion yn cael eu gwireddu
- Dylai ysgolion dysgu am bob crefydd ac athroniaethau digrefydd/caniatáu plant i ddewis eu llwybrau eu hunain

5.5 Mae mwy o fanylion am yr ymatebion ar gael yn yr Adroddiad Ymgynghori sydd wedi ei greu ar y cyd rhwng CSDd a'r Esgobaeth; mae copi ohoni wedi'i atodi i'r adroddiad yma o dan yr enw Atodiad A.

5.6 Roedd Bwrdd Addysg Statudol Esgobaeth Llanelwy i gyfarfod ar 8 Rhagfyr 2014 i ystyried drafft yr Adroddiad Ymgynghori. Mi fydd aelodau'r Cabinet yn derbyn diweddariad ar lafar o ganlyniad y cyfarfod yma.

5.7 Yn ystod yr ymgynghoriad, codwyd y pwynt y byddai'r Cynigion yn helpu â throsiad disgyblion o Ysgol Fabanod Llanelwy VP i Ysgol Esgob Morgan. Pe bai gan y ddwy ysgol yr un cysylltiad ffurfiol â'r Esgobaeth, byddai hyn yn gwneud y trosiad yn haws. Polisi'r Cyngor ar gyfer Ysgolion Fabanod a Chynradd yw cynyddu cyfuniad mewn achosion lle mae Pennaeth presennol yn gadael ei swydd neu'n ganlyniad o adolygiad ardal. Petai'r ddwy ysgol yn cyfuno yn y dyfodol i ddod yn ysgol gynradd pob oed, mi fyddai'r Cynigion yn symleiddio'r broses hon. Y rheswm am hyn yw nad ydy'n bosib cyfuno ysgol eglwysig ag ysgol nad ydy hi'n eglwysig. Fodd bynnag, byddai modd cyfuno dwy ysgol 'eglwysig' Anglicanaidd.

6. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

6.1 Mae'r Cynigion yn cyd-fynd ag amcan corfforaethol 'Gwella perfformiad mewn addysg ac yn ansawdd adeiladau ein hysgolion' a osodwyd o fewn y Cynllun Corfforaethol 2012 – 2017. Pe bai'r Cynigion yn cael eu gweithredu, byddai'r ysgol yn elwa o arolwg safonau ychwanegol. Yn ogystal â chyfundrefn Estyn, byddai'r ysgol yn cael ei harolygu hefyd gan arolygwyr addysg yr Esgobaeth. Gobeithir y bydd hyn yn cael effaith bositif ar berfformiad mewn ysgol sydd eisoes yn perfformio'n dda.

6.2 Pe bai'r ysgolion yn cael eu cyfuno yn y dyfodol, byddai'r penderfyniad i gymeradwyo'r Cynigion yn cydlynu â Fframwaith Polisi Moderneiddio Addysg, Polisi 4: Cyfuno Ysgolion Babanod ac Iau, sy'n datgan "Mae'r Cyngor wedi'i ymrwymo i gyfuno ysgolion babanod ac iau".

7. Faint fydd yn ei gostio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

7.1 Mae prif gostau cam yma'r Cynigion yn ymwneud ag amser swyddogion a phrintio a chylchlythyru'r hysbysiad statudol.

7.2 Os byddwn yn bwrw ymlaen â'r cynigion a'u gweithredu, rhagwelir y bydd angen cefnogaeth AD i staff a effeithir yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol gan y newidiadau arfaethedig.

7.3 Yn ogystal, mae'n ofyniad statudol penodol i drosglwyddo'r tir ac adeiladau sy'n cael eu defnyddio gan yr ysgol (heblaw am y caeau chwarae) i'r Esgobaeth. Byddai hyn yn cael ei weithredu'n amodol ar gymal dychweliad fyddai'n trosglwyddo'r tir ac adeiladau yn ôl at GSDd pe bai'r Esgobaeth yn peidio eu defnyddio at bwrpas rhedeg yr ysgol ffydd. Mi fyddai hyn yn anochel yn arwain at gostau cyfreithiol ac yn gofyn ar Wasanaeth Gyllid ac Asedau CSDd i gymryd y camau priodol i gofnodi'r newid perchenogaeth. Derbyniodd

Grŵp Rheoli Asedau adroddiad ar y Cynigion hyn yn ei gyfarfod ar 6 Tachwedd 2014.

8. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb (AEC) a gynhaliwyd ar y penderfyniad? Dylai'r templed AEC wedi'i lenwi cael ei atodi fel atodiad i'r adroddiad.

8.1 Cynhaliwyd AEC ar y penderfyniad ac mae hyn wedi'i atodi i'r adroddiad yma o dan yr enw Atodiad B. Mae crefydd yn nodwedd warchodedig a byddai'r Cynigion, pe baent yn cael eu gweithredu, yn golygu bod Ysgol Gynradd Yr Eglwys yng Nghymru i ddisgyblion o'r ysgol gyfagos, Ysgol Fabanod Llanelwy VP, ei fynychu. Mae canran uchel o'r plant yma'n gwneud y newid yma'n barod. Fodd bynnag, pe bai'r Cynigion yn cael eu gweithredu, byddai gan yr Ysgol Gynradd yr un ethos ffydd â'r ysgol fabanod.

8.2 Mae peidio â pherthyn i neu gredu mewn unrhyw grefydd, neu gynnal cred nad yw'n grefyddol hefyd yn nodwedd warchodedig. O ganlyniad, mi fydd y rhai fyddai'n well ganddynt beidio â danfon eu plant i ysgol ffydd yn cael eu haffeithio'n negyddol gan y Cynigion. Fodd bynnag, gan fod 24% yn unig o'r rhai ac ymatebodd i'r ymgynghoriad ffurfiol wedi dweud y dylai addysg fod yn seciwlar, ni theimlir fod y Cynigion yn cael effaith negyddol anghyfartal ar gredoau o'r fath.

9. Pa ymgynghoriadau sydd wedi eu cynnal gyda'r Pwyllgor Archwilio ac eraill?

Cynhaliwyd ymgynghoriad gyda'r holl fudd-ddeiliaid ac mae crynodeb o'r cyfnod Ymgynghori Ffurfiol ym mhrif gorff yr Adroddiad Ymgynghori (gweler Atodiad A).

10. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Nid oes yna oblygiadau cyllidol sylweddol i'r cynigion.

11. Pa risgiau sydd yna ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

11.1 Mae posibilrwydd y gallai'r cynnig arwain at gyhoeddusrwydd anffafriol ar gyfer CSDd a sylwadau cyhoeddus andwyol.

11.2 Er mwyn lleihau'r risg hon, bydd CSDd yn ceisio sicrhau cyfathrebu clir gyda'r holl fudd-ddeiliaid.

12. Pŵer i wneud y penderfyniad

Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a Fframwaith Polisi Moderneiddio Addysg (cymeradwywyd gan y Cabinet ym mis Ionawr 2009)